# GWELLA'R CYFLEOEDD I GAEL MYNEDIAD I'R AWYR AGORED AR GYFER GWEITHGAREDDAU HAMDDEN CYFRIFOL

## CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

## CYFLWYNIAD

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Wella Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Cyfrifol rhwng 10 Gorffennaf 2015 a 02 Hydref 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn archwilio'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer cael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden yng Nghymru, ac yn archwilio opsiynau ar gyfer newid. Roedd y papur yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad cynharach (2014), ac yn annog trafodaeth ar raddfa symudol o opsiynau posibl, yn cynnwys:

- Gweithdrefnau diwygio – gwneud gwelliannau i'r gwaith o weinyddu'r ddeddfwriaeth mynediad bresennol;
- Dileu cyfyngiadau – dileu rhai o'r cyfyngiadau ar yr amrywiaeth o weithgareddau y gellir eu cynnal ar hawliau tramwy ac ar dir mynediad;
- Diwygio mynediad – ymestyn y diffiniad o dir mynediad i gynnwys ardaloedd eraill; a
- Hawliau a chyfrifoldebau newydd – gweithredu setliad mynediad cwbl newydd, sy'n caniatáu llawer mwy o ddefnydd o dir ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol.

Nid oedd y rhain yn gynigion penodol, ac roeddent i'w hystyried fel enghraifft o'r mathau o newidiadau y gellid eu rhoi ar waith.

Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud o ran a ddylid symud ymlaen ag unrhyw newidiadau. Nod allweddol yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth a safbwyntiau gan bobl ynglŷn â sut y gallai gwelliannau arfaethedig i'r system ddeddfwriaethol effeithio ar y galw am weithgareddau hamdden yn yr awyr agored yn y dyfodol; a'u heffaith bosibl ar faterion yn ymwneud â thir a dŵr, yn cynnwys defnyddwyr presennol, rheolwyr tir a'r amgylchedd naturiol.

Roedd pedwar cwestiwn ar ddeg yn cwmpasu amrywiaeth o faterion, yn cynnwys mynediad i dir, dŵr a'r arfordir.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn darparu cyfoeth o wybodaeth am y mathau o weithgareddau hamdden sy'n cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru (a thu hwnt). Roeddent hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr heriau y mae rheolwyr tir, ffermwyr a buddiannau masnachol eraill yn eu hwynebu o bryd i'w gilydd. Amlygodd yr ymgynghoriad safbwyntiau cryf, a oedd weithiau yn gwbl groes i'w gilydd, ar y system bresennol ar gyfer cael mynediad i'r awyr agored, a sut y gellid gwella arni.

## TROSOLWG O'R YMATEBION

Cafwyd 5,796 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn cynnwys 22 o ymatebion i'r fersiwn ieuenctid, a gyhoeddwyd ar yr un pryd. Cyrhaeddodd 165 o'r ymatebion hyn ar ôl y dyddiad cau, ond mae'r sylwadau wedi cael eu hystyried.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb byr o'r safbwyntiau a ddaeth i law trwy ddefnyddio templed ymateb Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r ymatebion ar ffurf electronig nad oedd yn dilyn y templed, a'r rhai ar ffurf copi caled. Mae'r ymatebion a gafwyd i fersiwn ieuenctid yr ymgynghoriad, a'r rhai a oedd yn defnyddio templedi a gyhoeddwyd gan sefydliadau allanol, wedi'u cynnwys ar wahân isod.

| **Gweledigaeth ar gyfer mynediad a phennu heriau allweddol** | |
|---|---|
| Egwyddorion arweiniol | Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion o blaid yr egwyddorion, er bod yna nifer o awgrymiadau o ran sut y gallai'r rhain gael eu gwella. Cafwyd argymhellion ar gyfer cynnwys llinellau ar ddiogelu yn erbyn defnydd anghyfrifol trwy fesurau gorfodi; egwyddor o ran hysbysu ac addysgu; ac egwyddor ar gyfer annog rheoli gweithgareddau hamdden modur yn gadarnhaol. Roedd beirniadaethau o'r egwyddorion yn cynnwys eu bod yn methu cydnabod y rhwystrau cymdeithasol i fynediad; a'u bod ychydig yn amhendant. Roedd nifer o ymatebwyr yn argymell cynnwys diffiniad o “weithgareddau hamdden cyfrifol”. |
| Heriau allweddol | Roedd yr ymatebion, ar y cyfan, yn cytuno â'r heriau allweddol a nodir yn y papur. Roedd heriau allweddol eraill a amlinellwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:<br>• Y diffyg eglurhad o ran hawliau mynediad i ddŵr mewndirol ac arno;<br>• Yr angen am well amwynderau, yn cynnwys meysydd parcio a chyfleusterau toiled;<br>• Yr angen i hyrwyddo cyfleoedd mynediad presennol yn well. |
| **Gweithdrefnau diwygio – gwneud gwelliannau i weinyddu'r ddeddfwriaeth mynediad bresennol** | |
| Gweithdrefnau ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus | Cofnodi hawliau tramwy: O'r 85 o ymatebion a gafwyd o ran cofnodi hawliau tramwy cyhoeddus, nododd 58 (68%) fod yn well ganddynt fapiau diffiniol electronig na'r fersiynau copi caled presennol. Nododd 11 (13%) nad oedd digideiddio o reidrwydd yn angenrheidiol/well.<br><br>Roedd ymatebion eraill yn cynnwys ei gwneud yn haws i ddiwygio'r map a datganiad diffiniol, yn enwedig pan fo angen gwneud mân ddiwygiadau, yn cynnwys newidiadau i gelfi llwybr (e.e. camfeydd a chlwydi).<br><br>Yn gyffredinol, roedd y rheini a wnaeth sylw ar y gweithdrefnau ar gyfer agor, cau neu ddargyfeirio llwybrau, o'r farn y dylid symleiddio'r ddeddfwriaeth. Nododd y rhan fwyaf fod angen symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer dargyfeirio llwybrau, yn cynnwys sicrhau ei bod yn broses annibynnol yn hytrach na dwy broses ar wahân – un gorchymyn diddymu ac un gorchymyn creu; a chyflwyno system electronig ar gyfer gwneud ceisiadau i ddargyfeirio. |

| | |
|---|---|
| Galluogi awdurdodau lleol i wneud gwelliannau | Roedd yr ymatebion yn amrywio o ran pa newidiadau a allai helpu i hwyluso gwelliannau gan yr awdurdod lleol ar lawr gwlad. Roedd y tri maes o ddiddordeb allweddol fel a ganlyn –<br>i) Gwella gallu awdurdodau lleol i symud rhwystrau a gwneud gwaith, yn cynnwys cael mynediad i unrhyw dir er mwyn cynnal a gwella llwybrau;<br>ii) Caniatáu hyblygrwydd o ran uwchraddio, neu gyflwyno celfi newydd (camfeydd, clwydi ac ati) ar lwybrau cyhoeddus, yn cynnwys ei gwneud yn haws codi clwydi yn lle camfeydd;<br>iii) Gwella cyfleoedd ar gyfer gorfodi yn erbyn troseddau, yn cynnwys rhwystrau, ar hawliau tramwy cyhoeddus. Roedd y mwyafrif o blaid cyflwyno cosbau penodedig a/neu gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus mewn mesurau trawsgydymffurfio ar gyfer cymorthdaliadau i ffermydd. |
| Anneddfwriaethol yn y tymor byr | Awgrymodd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn y dylid annog defnyddio gwirfoddolwyr i helpu i gefnogi awdurdodau lleol i gynnal llwybrau a nodi problemau yn y rhwydwaith. Awgrymodd nifer y byddai hyn yn annog pobl i ystyried eu rhwydwaith o lwybrau lleol yn “ased cymunedol”. Roedd eraill yn cefnogi defnyddio grwpiau trydydd sector yn wirfoddolwyr, yn cynnwys grwpiau cerdded a grwpiau modura oddi ar y ffordd.<br><br>Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn cefnogi gwell cyfathrebu, yn cynnwys canllawiau ar sut y gellir defnyddio llwybrau yn gyfrifol, gwell gwybodaeth am broblemau presennol o ran y rhwydwaith, a hyrwyddo llwybrau yn well.<br>Roedd sylwadau eraill ar welliannau anneddfwriaethol yn cynnwys gwell arwyddion a marciau ffordd; a chymell tirfeddianwyr i ganiatáu mwy o lwybrau a defnydd mwy amrywiol o lwybrau sy'n bodoli. |
| Fforymau Mynediad Lleol | Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r cwestiynau ar Fforymau Mynediad Lleol yn canolbwyntio ar eu rôl a'u haelodaeth. Roedd y mwyafrif o blaid gwella rôl Fforymau Mynediad Lleol, yn cynnwys eu gwneud yn ymgyngoreion statudol ar newidiadau i hawliau tramwy cyhoeddus; cynghori ar ddadleuon; a bod â rôl o ran monitro'r gwaith o weithredu cynlluniau gwella hawliau tramwy yr awdurdod lleol.<br><br>O'r 203 ymatebydd a wnaeth sylw ar y 94 newid awgrymedig gan y Fforymau Mynediad Lleol i aelodaeth gyfredol y grwpiau, nododd sawl un y dylid estyn yr aelodaeth i ystod ehangach o ddiddordebau, yn cynnwys diddordebau o ran dŵr a ffermio [nid oes cyfyngiadau yn bodoli o ran cynnwys y rhain]. Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau bod natur Fforymau Mynediad Lleol ac amseriad cyfarfodydd yn aml yn golygu na allai'r rheini sy'n gweithio, yn enwedig pobl iau, fod yn aelodau.<br><br>Daeth chwe deg saith sylw i law ar rôl aelodau Fforymau |

| | |
|---|---|
| | Mynediad Lleol. Roedd llawer o'r rhain am weld eu rolau yn cael eu hehangu – fodd bynnag, mae llawer o'r awgrymiadau hyn eisoes yn cael eu cynnwys (er enghraifft buddiannau tirfeddiannol, ac ati). Roedd eraill am sicrhau rôl fwy i'r Fforymau Mynediad Lleol o ran datblygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.<br><br>Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys y dylai gwaith y Fforymau Mynediad Lleol gael gwell cyhoeddusrwydd, ac y dylai aelodau gael hyfforddiant ffurfiol o ran hawliau tramwy a materion perthynol eraill. |
| Cŵn | Ni chafwyd unrhyw awgrymiadau y dylai cŵn gael eu gwahardd o ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ond roedd y farn yn amrywio o ran difrifoldeb cyfyngiadau – o roi safnffrwyn ar bob ci, i barhau â'r drefn bresennol o gyfyngiadau penodedig.<br><br>O'r 172 o ymatebion a grybwyllodd gŵn, nododd 91 (53%) fod addysg a chodi ymwybyddiaeth o berchenogaeth gyfrifol ar gŵn, ac amlygu effaith negyddol ymddygiad anghyfrifol, yn hanfodol. Y mater a oedd yn peri'r pryder mwyaf i'r ymatebwyr oedd effeithiau perchenogaeth anghyfrifol ar dda byw (aflonyddu a bioberygl o ganlyniad i ysgarthion) a bywyd gwyllt (yn cynnwys adar sy'n nythu ar lawr). |
| **Dileu cyfyngiadau – dileu rhai o'r cyfyngiadau ar yr amrywiaeth o weithgareddau y gellir eu cynnal ar hawliau tramwy ac ar dir mynediad** | |
| Diwygio hawliau cyhoeddus ar lwybrau | O'r 113 ymateb a oedd yn ymwneud yn benodol â chaniatáu ystod ehangach o weithgareddau ar hawliau tramwy a thir mynediad, nododd 40 nad oeddent am weld unrhyw newid i'r hawliau sy'n gysylltiedig â llwybrau cyhoeddus neu dir mynediad. Nododd 73 eu bod am weld newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar hawliau tramwy a/neu dir mynediad, i ganiatáu mwy o fynediad. Roedd hyn yn cynnwys nifer a oedd o'r farn y dylid uwchraddio hawliau tramwy presennol er mwyn cael mwy o lwybrau amlddefnyddiwr.<br><br>Yn ogystal â hyn, nododd grwpiau o ddefnyddwyr penodol eu diddordeb o ran bod arnynt angen, neu eu bod yn haeddu, gwell cyfleoedd ar gyfer mynediad. Roedd hyn yn cynnwys beicwyr – y nifer mwyaf o ymatebion o bell ffordd gan unrhyw grŵp, paragleidwyr, a marchogion. |
| Defnyddio cerbydau modur | Roedd y mwyafrif o'r ymatebion a oedd yn rhoi barn ar fynediad i gerbydau modur, oddi ar y ffordd ac ar hawliau tramwy cyhoeddus, yn negyddol. Fodd bynnag, o'r rhain, nifer bach iawn a oedd yn gwahaniaethu rhwng defnyddio cerbydau yn gyfreithlon ac yn anghyfreithlon. Awgrymodd nifer y dylid gwahanu defnyddwyr cerbydau modur a defnyddwyr heb fodur, er enghraifft, cyfyngu'r defnydd i dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol |

| | |
|---|---|
| | Cymru, ac ardaloedd coedwigaeth yn benodol.<br><br>Roedd ymatebion cadarnhaol yn cynnwys y rheini gan bobl anabl sy'n defnyddio cerbydau i gyrraedd ardaloedd na fyddent yn gallu eu cyrraedd fel arall. |
| **Diwygio mynediad – ymestyn y ddiffiniad o dir mynediad i gynnwys ardaloedd eraill** | |
| Pennu, cynllunio a darparu mynediad newydd a gwell | Roedd safbwyntiau ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn llywio'r mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif sylweddol yr ymatebion yn gadarnhaol o ran diben ac effeithiolrwydd Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Mynegodd 33 ddymuniad i weld eu dibenion yn cael eu gwella i gynnwys ardaloedd eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd, yn cynnwys coetiroedd, llynnoedd a chlogwyni arfordirol. Roedd 7 am weld diben y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn aros yr un peth.<br>Roedd ymatebion eraill yn cynnwys awgrymiadau a safbwyntiau ar sut i nodi'r galw am lwybrau, a'r cyflenwad ohonynt, yn cynnwys monitro'r defnydd o lwybrau sy'n bodoli, a defnyddio hen reilffyrdd. |
| **Hawliau a chyfrifoldebau newydd – gweithredu setliad mynediad cwbl newydd, sy'n caniatáu llawer mwy o ddefnydd o dir ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol** | |
| Hawl i gynnal gweithgareddau hamdden cyfrifol ar bob tir | O'r 224 a fynegodd farn glir wrth ymateb i gwestiwn 11 (manteision a heriau creu hawl i gynnal gweithgareddau hamdden cyfrifol ar bob tir), neu a nododd yn benodol fodel yr Alban yn eu hymatebion, nad oeddent yn defnyddio'r templed, roedd 50% o blaid a 50% yn erbyn ystyried system debyg yng Nghymru.<br><br>Ymhlith manteision posibl cael mynediad cyfrifol i bob tir, nodwyd manteision economaidd, iechyd a symleiddio hawliau.<br><br>Y ddwy her allweddol a nodwyd oedd yr effaith bosibl ar dda byw a rheoli tir; a goblygiadau cynnydd posibl o ran atebolrwydd a chostau ar gyfer rheolwyr tir. |
| **Dŵr** | |
| Cyfleodd mynediad cynyddol i ddŵr ac ar y dŵr | O'r 146 a fynegodd eu barn ar a ddylid cynyddu cyfleoedd mynediad ar gyfer rhagor o weithgareddau ger dyfroedd mewndirol ac arnynt, roedd 88 (60%) o blaid. Yn ychwanegol at hyn, roedd deg ymatebydd o'r farn nad oes unrhyw rwystrau cyfreithiol i fordwyo ar hyn o bryd.<br><br>O'r rheini a oedd o blaid cynyddu cyfleoedd, nododd nifer fod parcio yn ofyniad pwysig i alluogi mynediad i ddŵr.<br><br>Nodwyd bod galw mawr yng Nghymru am weithgareddau fel canŵio, caiacio a nofio. Roedd manteision a nodwyd yn cynnwys |

| | |
|---|---|
| | lleihau'r pwysau ar rannau o ddŵr sydd eisoes yn boblogaidd iawn ac yn cael eu defnyddio gan lawer, cynyddu twristiaeth, ac annog ymwybyddiaeth o'r amgylchedd.<br><br>Roedd y rheini sy'n gwrthwynebu sefydlu mynediad o'r newydd i ddŵr, neu wella mynediad i ddŵr, yn cyfleu dau bryder:<br>a). Yr effaith ar bysgota – ‘byddai mynediad cynyddol i fwy o ddefnyddwyr yn niweidiol i'r gamp, a byddai'n lleihau buddion economaidd y gamp i Gymru’; a<br>b). Pryderon amgylcheddol – ‘mae defnydd cynyddol o ganŵau a chaiacau (pan fo afonydd yn isel), yn difrodi glannau afonydd (ar gyfer mynd i mewn a dod allan) ac yn cynyddu risgiau bioddiogelwch. |
| Deddfwriaeth | O'r rhai a grybwyllodd ddeddfwriaeth yn benodol mewn perthynas â mynediad i ddŵr, roedd y mwyafrif o blaid deddfwriaeth. Fodd bynnag, er bod nifer o'r rhain o'r farn y dylai deddfwriaeth sefydlu hawliau mordwyo ar gyfer pob defnyddiwr, roedd yna hefyd safbwyntiau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys y dylid rhoi deddfwriaeth mewn grym i egluro defnydd cyfyngedig (naill ai i ddefnyddwyr glannau'r afon, neu er mwyn cyfyngu'r defnydd i amserau penodol neu gyflyrau dŵr penodol), neu i ddirprwyo pwerau i awdurdodau lleol.<br><br>Roedd yr ymatebion a oedd yn gwrthwynebu deddfwriaeth yn mynegi'r farn nad oedd angen eglurder trwy ddeddfau newydd. |
| Cytundebau mynediad gwirfoddol | O'r 68 o ymatebwyr a fynegodd farn ar gytundebau mynediad gwirfoddol, roedd 51 (75%) o'u plaid ac 17 (25%) yn eu herbyn.<br><br>Fodd bynnag, roedd barn y 75% a oedd o blaid yn amrywio o ran sut y gellid eu gweithredu. Awgrymodd nifer o ymatebwyr na fyddent yn effeithiol ond o'u gweithredu o fewn fframwaith deddfwriaethol. Mynegodd eraill y farn fod diffyg ymgysylltiad o ran grwpiau canwio yn rhwystr allweddol i sefydlu cytundebau effeithiol o dan y system bresennol. |
| Trwyddedu | Cafwyd deunaw ymateb mewn perthynas â thrwyddedu gweithgareddau dŵr. Roedd 14 o blaid trwyddedu naill ai cerbydau dŵr difodur, neu ddefnyddwyr benodol fasnachol; roedd 3 yn erbyn; ac nid oedd un ymatebydd (defnyddwyr masnachol) yn amharod i drwyddedu, cyhyd ag y bo'r defnydd a wneir o'r refeniw yn dryloyw. |
| Corff arweiniol | Nododd deuddeg o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt fod corff arweiniol yn cael ei sefydlu i negydu rhannau o ddŵr ar gyfer mynediad. Roedd un o'r rhain o blaid cefnogaeth i'r corff arweiniol gan fforymau mynediad lleol. |

| **Yr arfordir** | |
|---|---|
| Gwella cyfleoedd | Roedd safbwyntiau o blaid ac yn erbyn cynyddu cyfleoedd i gael mynediad i'r arfordir yn weddol gytbwys. Roedd y rheini a oedd o blaid yn nodi gwell mynediad ar gyfer amrywiaeth ehangach o weithgareddau, yn cynnwys arforgampau, dringo clogwyni a cherdded ar hyd ceunentydd; a defnydd mwy traddodiadol, yn cynnwys cerdded, beicio a marchogaeth.<br><br>Roedd nifer o ymatebion yn erbyn cynyddu mynediad i'r arfordir ac, o'r rhain, roedd nifer yn cefnogi hyrwyddo a chynnal y mynediad presennol yn well. |
| **Cod statudol** | |
| Cyflwyno cod statudol | O'r 171 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 132 (77%) yn cefnogi creu cod ymddygiad statudol ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored yng Nghymru. Roedd y manteision a nodwyd yn cynnwys y gred y byddai'n egluro hawliau a chyfrifoldebau, ac y byddai'n cynorthwyo gyda gorfodaeth ac addysg. Roedd y pryderon yn cynnwys gorfodi achosion o dorri'r cod, ac y byddai cyfathrebu a hyrwyddo'r cod mewn modd annigonol yn ei wneud yn aneffeithiol. Nododd nifer o ymatebwyr y byddai angen i god fod yn glir, yn gryno, yn hyblyg, yn ddealladwy ac yn syml.<br><br>Roedd amheuon ynghylch gorfodaeth yn anfantais allweddol a nodwyd gan y rheini a oedd yn erbyn cael cod statudol. |

**Ymatebion gan bobl ifanc:**
Yn ogystal â'r prif ymgynghoriad, roedd yna ymgynghoriad cydamserol a oedd wedi'i anelu at blant a phobl ifanc. Cynlluniwyd hwn gan Youth Friendly, ac roedd yn crynhoi'r ddogfen ymgynghori 31 tudalen yn ddogfen lliw 8 tudalen gyda darluniau. Yr oedd hefyd yn cynnwys llai o gwestiynau, ac yn targedu'r ystod oedran 11 i 16.

Cafwyd cymysgedd o ymatebion personol ac ymatebion cydweithredol gan ysgolion a chlybiau ieuenctid, ac amcangyfrifir bod o leiaf 64 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Roedd y fersiwn Youth Friendly yn gofyn am fewnbwn mewn 8 maes allweddol. Mae crynodeb o'r ymatebion i'w weld isod.

**Roedd cwestiwn 1 yn ffocysu ar yr angen i ddiweddaru'r gyfraith**
Roedd 57 yn cytuno â'r rhesymeg y tu ôl i'r angen i ddiweddaru'r gyfraith, roedd 3 yn ansicr, ac roedd 2 yn anghytuno. Nodwyd hefyd yr angen am fwy o gyfleoedd, yr angen i fod yn fwy ymwybodol o ddefnyddwyr eraill, a'r angen i arbed arian. Nododd 1 yr angen i amddiffyn yr amgylchedd. Roedd un grŵp ieuenctid, a oedd yn cynnwys 13 ymatebydd, hefyd wedi nodi bod angen i ddeddfwriaeth gymryd llai o amser tirfeddianwyr/meddianwyr.

**Roedd cwestiwn 2 yn gofyn beth oedd yr heriau o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored**
Y prif ffactorau oedd cost a phellter, a dilynwyd hyn yn agos gan ansicrwydd o ran lle yr oedd ganddynt yr hawl i fynd iddo. Roedd yna hefyd ansicrwydd o ran beth oedd ar gael, ac roedd yna nifer cyfartal a oedd wedi 'diflasu' ar yr hyn a oedd ar gael. Cafwyd detholiad o atebion eraill, gyda phwysau gan yr ysgol, bwlio, a diogelwch ymhlith y rhesymau a amlinellwyd.

**Roedd cwestiwn 3 yn gofyn pa weithgareddau awyr agored ar y tir y byddent yn dymuno cael mwy o gyfle i'w gwneud:**
Ar frig y rhestr yr oedd gwersylla, yn cael e ddilyn yn agos gan feicio, heicio/cerdded, dringo, marchogaeth, rhedeg a beicio mynydd/treialon beiciau.
Rhestrwyd atebion eraill, llai poblogaidd, er enghraifft parciau sglefrio, pêl-droed, parciau, rygbi merched a mwy.

**Roedd cwestiwn 4 yn gofyn pa weithgareddau awyr agored ar y tir yr oeddent yn eu gwneud ar hyn o bryd:**
Y prif weithgareddau yw beicio a gwersylla, yn cael eu dilyn yn agos gan gerdded/heicio a chwaraeon cae. Roedd lefel gymedrol o ddiddordeb mewn rhedeg, dringo a marchogaeth, yn cael eu dilyn gan feicio mynydd. Nodwyd llu o weithgareddau eraill hefyd.

**Roedd cwestiwn 5 yn gofyn pa weithgareddau awyr agored ar y dŵr y byddent yn dymuno cael mwy o gyfle i'w gwneud:**
Ar frig y rhestr o bethau y byddent am gael mwy o gyfleoedd i'w gwneud y mae pysgota, yn cael ei ddilyn yn agos gan ganwio/caiacio. Yn uchel ar y rhestr hefyd y mae cerdded ar hyd ceunentydd a nofio, yn cael eu dilyn gan hwylio ac yna padl-fyrddio.

**Roedd cwestiwn 6 yn gofyn pa weithgareddau awyr agored ar y dŵr yr oeddent yn eu gwneud ar hyn o bryd:**
Roedd yr adborth ar gyfer y cwestiwn hwn dipyn yn is nag yr oedd ar gyfer cwestiwn 5. O'r gweithgareddau a restrwyd, roedd nofio ar frig y rhestr, yn cael ei ddilyn gan gaiacio/canwio, ac yna pysgota.
Nododd dau unigolyn ei bod yn rhy beryglus mewn afonydd.

**Roedd cwestiwn 7 yn canolbwyntio ar fynediad i'r arfordir, ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael:**
Rhestrwyd amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys rhedeg, nofio, cerdded a syrffio. Roedd pawb yn ymddangos yn gadarnhaol ynghylch ymweld â'r arfordir, gydag un sylw negyddol yn unig, a oedd yn nodi na allai unigolyn ddefnyddio ei feic mynydd ar hyd llwybr yr arfordir.

**Roedd cwestiwn 8 yn agored i sylwadau pellach:**
Roedd dau sylw yn gofyn am ragor o ddigwyddiadau trefnedig, fel y rheini a ddarperir gan ganolfannau ieuenctid. Gofynnodd un am ragor o gyfleoedd i feicio ar lwybrau mynydd. Gofynnodd un am i sylw gael ei roi i'r bywyd gwyllt a'r cynefinoedd, gan grybwyll yn benodol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Hefyd, amlygodd

grŵp o 6 nad oedd yr ymgynghoriad yn rhoi digon o sylw i weithgareddau ar gyfer pobl anabl.

**Ymatebion i'r ymgyrch:**

Roedd nifer sylweddol (5143) o'r ymatebion a ddaeth i law wedi'u cyflwyno ar dempledi a baratowyd ac a hyrwyddwyd gan bedwar sefydliad gwahanol:

- CTC (beicio) – cyflwynwyd gan 4044 o ymatebwyr
- Y Cynghrair Cefn Gwlad – cyflwynwyd gan 926 o ymatebwyr
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – cyflwynwyd gan 128 o ymatebwyr
- Undeb Amaethwyr Cymru – cyflwynwyd gan 45 o ymatebwyr

<u>CTC</u>
Darparodd y CTC ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad, ond roedd hefyd yn hyrwyddo ymateb templed trwy e-ddeiseb. Roedd hon yn galw ar Gymru i fabwysiadu'r hawl i fynediad cyfrifol, yn debyg i'r hyn a grewyd gan yr Alban yn Neddf Diwygio Tir 2003. Wedi hynny, roedd yr ymateb yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd hamdden i feicwyr, ynghyd â manteision hynny.

Cafwyd sylwadau ychwanegol gan 19 ymatebydd. Crybwyllodd chwech o'r rhain gyfleoedd presennol i feicio, gan nodi eu bod yn rhy gyfyng, ac y gall llwybrau pwrpasol fod yn fach, yn ddrud, a naill ai'n rhy hawdd neu'n rhy dechnegol.

Crybwyllodd pump y manteision i gymunedau ac unigolion o gynyddu mynediad ar gyfer beicwyr, ac o wneud y gorau o lwybrau troed, nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys gwneud gwell defnydd o wirfoddolwyr; dod â mynediad i mewn i'r 21ain ganrif a digideiddio'r map diffiniol; manteision beicio i'r rheini sy'n llai symudol ac sy'n cael trafferth cerdded pellterau hwy; a gorfodi tirfeddianwyr sy'n cael cyllid cyhoeddus i ganiatáu mynediad ehangach i'w tir.

<u>Y Cynghrair Cefn Gwlad</u>
Y brif neges a gafwyd gan ymatebion y Cynghrair Cefn Gwlad yw bod yna ddigon o fynediad eisoes, a'u bod yn gwrthwynebu mynediad pellach. Amlygwyd gwrthwynebiad ganddynt i ddilyn model yr Alban. Roeddent hefyd yn cytuno â'r symleiddio arfaethedig i'r broses o gael gwared ar lwybrau troed, neu eu symud.

Cafwyd sylwadau ychwanegol gan 44 ymatebydd. Yn gyffredinol, ymddengys bod y safbwyntiau hyn yn eiddo i bysgotwyr o ran materion sy'n ymwneud â mynediad i ddyfroedd mewndirol, ac maent yn negyddol tuag at bobl sy'n defnyddio canŵau a cherbydau dŵr eraill. Roedd wyth o'r sylwadau hyn yn amlinellu'n benodol y pryder bod cerbydau dŵr yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd.

Roedd un deg saith o sylwadau yn amlinellu pryderon nad oes digon o adnoddau ar gael i reoli mynediad cynyddol i dir a dŵr. Roedd un ar ddeg o'r rhain yn cyfeirio at addysgu a gorfodi'r mynediad anghyfreithlon cyfredol, ac yn awgrymu na fyddai sicrhau mwy o fynediad yn gwneud dim ond gwastraffu arian ac amser.

Daeth saith sylw i law a oedd o blaid cytundebau mynediad gwirfoddol, tra oedd chwe sylw yn awgrymu nad oedd y cytundebau hyn yn gweithio.

Roedd pedwar o'r sylwadau yn awgrymu bod y gyfraith yn glir, ac nad oedd yna hawl mordwyo cyffredinol ar afonydd di-lanw, tra bo un sylw yn gofyn am gael neges glir ar y gyfraith.

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Mae templed yr NFU yn amlygu cyfraniad ffermio i Gymru. Â yn ei flaen wedyn i wrthwynebu mwy o fynediad, a galw am well rheolaeth ar y trefniadau mynediad presennol. Gofynna'r undeb hefyd i Lywodraeth Cymru rannu gwybodaeth am gostau mwy o fynediad; darparu tystiolaeth i gefnogi mwy o fynediad; a nodi pa fesurau diogelu fydd ar gael i reoli unrhyw effeithiau negyddol a ddaw yn sgil mwy o fynediad.

Cafwyd sylwadau ychwanegol gan 81 ymatebydd. Mae'r mwyafrif yn erbyn mwy o fynediad, ac yn canolbwyntio ar reoli'r rhwydwaith/hawliau cyfredol yn well.

Nodwyd iechyd a diogelwch pobl yn bryder gan 32 o ymatebwyr. Tynnodd deuddeg sylw at bryder am gnydau, da byw a bywyd gwyllt. Tynnodd naw arall sylw at faterion yn ymwneud â chŵn.

Roedd dau ddeg saith o sylwadau yn ychwanegu at wrthwynebiad yr ymgyrch i fwy o fynediad. Roedd y sylwadau yn amrywio o nodi bod yna ormod o fynediad, i'r ffaith nad oedd y rhwydwaith yn cael ei ddefnyddio'n llawn, a bod llwybrau yn tyfu'n wyllt o ganlyniad i ddiffyg defnydd.

Achubodd pymtheg ar y cyfle i amlygu'r ffaith bod hwn yn dir preifat o'u heiddo nhw, ac amlygodd un ar ddeg faterion cyfreithiol; roedd chwech o'r rhain yn ymwneud ag atebolrwydd.

Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Mae templed yr FUW yn debyg i dempledi'r NFU a'r Cynghrair Cefn Gwlad, o ran eu bod yn nodi bod yna eisoes ddigon o fynediad, a'u bod yn gwrthwynebu mwy o fynediad. Maent o'r farn na fydd mwy o fynediad yn hyrwyddo cynnydd yn nifer y defnyddwyr, ond y bydd yn cael effaith negyddol ar amaethyddiaeth. Maent hefyd yn tynnu sylw at y mater o reoli cŵn a baw cŵn, yn ogystal â thensiynau rhwng gweithgareddau hamdden ar y dŵr, gan nodi y byddai model yr Alban yn effeithio'n negyddol arnynt. Maent hefyd yn galw am iawndal ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol a fyddai'n cael effaith negyddol ar berchenogion, meddianwyr a deiliaid hawliau eraill.

Cafwyd sylwadau ychwanegol gan ddau ymatebydd. Roedd un yn amlygu risgiau iechyd a diogelwch, cynnal y rhwydwaith presennol yn well, a darparu cymhelliant ariannol er mwyn cael mwy o fynediad. Cododd y llall hefyd y mater o gynnal a chadw'r rhwydwaith presennol yn well, yn ogystal â chŵn yn baeddu a throseddau cefn gwlad.